department for
culture, media
and sport

Canllaw i Ymgeiswyr

Cais am Drwydded Mangre Newydd

Mawrth 2010

improving
the quality
of life for all

Ein hamcan yw gwella ansawdd bywyd i bawb trwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi'r cais am ragoriaeth a hyrwyddo'r diwydiannau twristiaeth, creadigol a hamdden.

CAIS AM DRWYDDED MANGRE

Pryd i Ddefnyddio'r Ffurflen

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i ffurflenni cais am drwydded mangre dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf"). Mae ffurflen debyg ar gael ar gyfer clybiau sy'n gwneud cais am dystysgrif mangre clwb.

Yn gyffredinol, mae trwydded mangre'n gallu awdurdodi'r gweithgareddau canlynol:

- ***manwerthu a chyflenwi alcohol***
- ***darparu adloniant rheoledig***
- ***darparu bwyd a diod poeth yn hwyr y nos.***

Mae gwybodaeth bellach am ba weithgareddau sy'n drwyddedadwy yn cael ei chynnwys yn nes ymlaen yn y canllaw hwn.

Rhaid gwneud ceisiadau am drwydded mangre i awdurdod trwyddedu'r ardal y mae'r fangre ynddi. Fel arfer bydd hyn yn golygu'ch awdurdod lleol. Gellir cael ffurflenni cais o wefan DCMS neu, ar gais, gan eich awdurdod trwyddedu. Efallai eu bod ar gael hefyd ar wefan eich awdurdod trwyddedu. Os ydych yn gwneud cais ar-lein, trwy'r Cyfleuster Ymgeisio Electronig ar www.businesslink.gov.uk neu gyfleuster electronig eich awdurdod trwyddedu eich hun (os oes un ar gael) fe fydd gofyn i chi gwblhau ffurflen gais ar-lein.

ANGEN MWY O GYMORTH?

Bwriad y Canllaw hwn yw helpu ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen gais. Os ydych yn gwneud cais ar-lein fe ddylech hefyd ddarllen y canllaw ar wneud ceisiadau ar-lein ar y dudalen we hon, sef: http://www.culture.gov.uk/images/publications/onlineapplication_guidanceforapplicants_dec09.pdf Gellir cael gwybodaeth bellach am Ddeddf Trwyddedu 2003 a ffynonellau eraill o gymorth mewn mannau eraill o wefan DCMS. Dylai'ch awdurdod trwyddedu lleol hefyd allu'ch helpu gydag unrhyw ymholiadau neu roi cyngor ar sut i gwblhau'r cais. Efallai yr hoffech hefyd ystyried ffynonellau eraill o gyngor megis corff masnachu perthnasol, neu trwy geisio cymorth proffesiynol, megis cyngor cyfreithiol.

CWBLHAU'R FFURFLEN

Yn y datganiad agoriadol, dylech roi enw'r ymgeisydd neu ymgeiswyr am drwydded e.e. 'John Smith' neu 'Cwmni Tafarn Neis'.

RHAN 1: Manylion y Fangre

Mae'r adran hon yn gofyn am gyfeiriad a rhai manylion eraill am y fangre. Os nad oes gan y fangre gyfeiriad post, er enghraifft os yw'r cais yn berthnasol i ddigwyddiad ar dir agored, dylech ddisgrifio lleoliad y fangre neu roi cyfeirnod map Arolwg Ordnans.

Mae'r adran hefyd yn gofyn am werth ardrethol annomestig (NDRV) y fangre. Nid yw hyn yr un peth â'r gwir ardrethi busnes a dalwch ond mae'n werth a bennir gan y Swyddfa Brisio, sy'n helpu i bennu ardrethi busnes. Yr NDRV, yn hytrach na'ch bil ardrethi busnes, fydd yn pennu'r lefel o ffioedd i'w talu gyda'r cais am drwydded a'r ffi flynyddol ar ôl hynny. Gellir gwirio NDRV unrhyw fangre ar wefan

Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA): www.voa.gov.uk . Mae'r NDRV yn cael ei ailbrisio bob 5 mlynedd. Dylai mangre dderbyn hysbysiad o'i phrisiad diweddaraf a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2010 ymlaen. Mae mangre heb werth ardrethol annomestig yn cael ei thrin fel petai ym Mand A at ddibenion ffioedd trwyddedu.

Gweler y canllaw ar FFIOEDD am ragor o wybodaeth:
www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/fee_levels

RHAN 2 – Manylion yr Ymgeisydd

Mae'r adran hon yn gofyn i chi nodi ym mha rinwedd rydych yn gwneud cais, er enghraifft fel unigolyn, cwmni cyfyngedig, clwb cydnabyddedig, elusen, ac ati. Dim ond un o'r rhain allwch chi eu defnyddio, felly ticiwch un blwch yn unig.

Os ydych yn gwneud cais fel yr unigolyn a ddisgrifir yn (a) neu (b) dylech hefyd dicio un o'r tri blwch ar ddiwedd y cwestiwn hwn. Yn achos y rhan fwyaf o ymgeiswyr, bydd y blwch cyntaf yn gymwys (h.y. bydd yr ymgeisydd yn rhedeg neu'n cynnig rhedeg busnes). Gall cais yn unol â 'swyddogaeth statudol' fod yn gais gan asiantaeth y Llywodraeth (e.e. Yr Asiantaeth Basbort) a gall cais yn unol â 'swyddogaeth sydd wedi'i rhyddhau drwy rinwedd uchelfraint Ei Mawrhydi' fod yn gais a wneir gan y Llywodraeth (e.e. gan Ysgrifennydd Gwladol).

Dylech roi manylion pellach un ai yn adran **(A) YMGEISWYR UNIGOL** neu adran **(B) YMGEISWYR ERAILL,** ond nid yn y ddwy.

Rhan 3 – Atodlen Weithredu

Dylech nodi'r dyddiad yr hoffech i'r drwydded gychwyn. Bydd trwydded mangre'n para'n amhenodol (oni bai ei bod yn cael ei diddymu yn dilyn gwrandawiad adolygu trwyddedau, wedi'i hildio neu'n dod i ben) oni bai y byddwch wedi nodi fel arall yn y blwch a ddarperir.

Disgrifiad Cyffredinol o'r Fangre

Gofynnir i chi ddisgrifio'r fangre. Er enghraifft, y math o fangre, ei lleoliad a'i chynllun cyffredinol ac unrhyw wybodaeth arall fyddai'n berthnasol i'r amcanion trwyddedu. Dylech hefyd ddisgrifio unrhyw fannau y bwriadwch eu darparu i bobl yfed alcohol y byddwch yn ei werthu neu'n ei gyflenwi, megis mannau awyr agored, e.e. gerddi cwrw, cysgodfeydd ysmygu ac yn y blaen.

5,000 neu fwy o Bobl yn Mynychu

Mae'n rhaid gofyn y cwestiwn am faint o bobl a fydd yn mynychu'r fangre ar unrhyw un adeg i benderfynu a ddylid codi ffi ychwanegol ar gyfer digwyddiadau mawr. Nid oes rhaid i chi gwblhau'r blwch hwn os ydych yn credu y bydd llai na 5,000 o bobl yn mynychu'r fangre ar unrhyw un adeg. Mae'r ffigur yn berthnasol i'r nifer uchaf o bobl, gan gynnwys cyflogeion, yn mynychu'r fangre drwyddedig ar unrhyw un adeg benodol - nid y cyfanswm dros gyfnod o amser. Mae'n bwysig nodi bod y ffigur mynychu hefyd yn cyfeirio at y 'fangre drwyddedig' (h.y. y fangre drwyddedig a ddynodir yn y cynllun) ac nid mannau sydd y tu allan i'r 'fangre drwyddedig'. Os penderfynwch na fydd y rhif yn uwch na 5,000, byddwch yn gyfrifol am sicrhau na fydd y rhif yn mynd yn uwch na'r ffigur hwn ar unrhyw un adeg. Os byddwch yn mynd yn uwch na'r ffigur, gallech fod yn cynnal gweithgaredd heb drwydded, sy'n drosedd.

Oes rhaid i mi roi tocyn i bawb er mwyn profi'r nifer ar y fangre?
Chi sydd i benderfynu pan fyddwch yn paratoi'r cais a oes angen trefniadau i gyfrif faint a fydd yn mynd i mewn neu allan. Ond mae'n drosedd gwneud datganiad ffug ar y cais, a gallai hynny arwain at ddirwy o £5,000.
Rydw i'n cynnal sioe wledig sydd â phabell gwrw. Oes rhaid i mi roi cyfanswm y nifer o bobl

yn y sioe yn yr adran hon?
Mae'n dibynnu a ydych chi'n trwyddedu'r fangre cyfan. Gan nad yw'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau mewn sioe o'r fath yn rhai sydd angen eu trwyddedu, dylai fod yn bosibl trwyddedu'r babell gwrw yn unig. Yn yr achos hwn, faint y mae'r babell gwrw yn ei ddal sy'n cyfrif ac mae'n annhebygol y byddai hyn yn ddigon i godi ffi digwyddiad mawr ychwanegol.
Ddylwn i gynnwys fy ngardd gwrw neu gysgodfa ysmygu ar fy nhrwydded mangre?
Chi ddylai benderfynu hyn. Dylech ystyried a fyddwch, efallai, eisiau ei defnyddio rywbryd yn y dyfodol i werthu alcohol - efallai bar awyr agored mewn barbeciw neu efallai trwy wasanaeth gweini diodydd. Hefyd, os nad ydych yn cynnwys yr ardd neu gysgodfa ysmygu fel rhan o'r fangre drwyddedig, bydd diodydd a brynir i'w hyfed yno'n cael eu cyfrif fel diodydd oddi ar y fangre a bydd unrhyw amodau sy'n berthnasol i werthiannau oddi ar y fangre yn gymwys. Os yw'r ardd gwrw neu gysgodfa ysmygu'n cael ei darparu i yfed cyflenwadau oddi ar y fangre, rhaid i chi gynnwys disgrifiad o'r man a pha mor agos ydyw at y fangre.

Gweithgareddau Trwyddedadwy

Dylech nodi pa weithgareddau trwyddedadwy rydych yn dymuno'u cynnal trwy dicio'r blychau priodol. Wrth ystyried beth i'w roi yn yr adran hon, dylech feddwl am yr holl weithgareddau yr hoffech gynnal yn y fangre yn y dyfodol ac ystyried a ydynt yn weithgareddau trwyddedadwy dan y Ddeddf. Wedyn dylech gwblhau'r blychau cyfatebol o A i M sy'n berthnasol i'r gweithgareddau hynny. Dylid cwblhau dim ond y blychau sy'n berthnasol i'r gweithgareddau yr ydych wedi'u ticio.

Dylech roi amserau gan ddefnyddio'r cloc 24 awr a rhoi manylion ar gyfer dim ond y dyddiau o'r wythnos pan fyddwch yn bwriadu defnyddio'r fangre ar gyfer y gweithgareddau trwyddedadwy dan sylw. Mae'r gofod a nodir 'Rhowch unrhyw amrywiadau tymhorol' yn gyfle i chi i gynnwys, er enghraifft, unrhyw oriau hirach neu ddyddiau ychwanegol yn ystod yr haf. Mae'r gofod a nodir 'Amseriadau ansafonol' yn gyfle i chi i gofnodi achlysuron pan fydd yr amserau'n newid. Er enghraifft, efallai y byddwch yn dymuno i'r gweithgaredd barhau'n hirach ar Noswyl Nadolig neu benwythnosau cyn gwyliau banc.

Dan 'amseriadau ansafonol' alla i ddweud y byddaf ar agor yn hwyr i ddarparu ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd, Pêl-droed Rheolau Awstralaidd neu ddigwyddiadau chwaraeon tramor a ddarlledir yn hwyr y nos neu'n gynnar yn y bore yn y DU?
Gallwch gynnwys pa bynnag weithgareddau trwyddedadwy y dymunwch, ond dylech ystyried sut y gallai'r rhain gael eu gweld gan awdurdodau cyfrifol neu bartïon cyfrannog. Gallai fod yn werth siarad â'ch awdurdod trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol perthnasol yn gyntaf i weld pa amodau, os o gwbl, y gallech eu cynnig i leddfu unrhyw bryderon allai fod ganddynt.

Ac eithrio ym mlwch C (chwaraeon dan do) gofynnir i chi ddynodi a yw'r gweithgaredd yn cael ei gynnal dan do, y tu allan neu'r ddau. Gall dan do gynnwys pabell.

Yn y gofod a nodir 'Rhowch fanylion pellach yma', nodwch y math o weithgaredd sydd i'w awdurdodi, os nad yw eisoes wedi ei ddatgan, a rhowch unrhyw fanylion pellach perthnasol, er enghraifft (i ddangos un yn unig) a fydd cerddoriaeth wedi ei chwyddo ai peidio.

BLYCHAU A – K (Darparu Adloniant Rheoledig)

Dylech gyfeirio at adran 1 ac Atodiad 1 y Ddeddf neu gysylltu â'ch awdurdod trwyddedu lleol i gael manylion llawn y diffiniadau o adloniant rheoledig.

BLWCH A: Dramâu

Perfformiad o unrhyw ddarn dramatig (gan gynnwys ymarfer), p'un a yw'n cynnwys gwaith byrfyfyr ai peidio, yn cael ei berfformio yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan un neu fwy o bobl sy'n bresennol, ac sy'n golygu bod y cyfan neu ran helaeth o'r hyn a wneir gan yr unigolyn neu unigolion sy'n perfformio, p'un ai'n areithio, canu neu weithredu, yn cynnwys chwarae rôl.

BLWCH B: Ffilmiau

Unrhyw arddangosiad o luniau symudol ac eithrio os yw ei unig neu brif bwrpas i arddangos cynnyrch, hysbysebu nwyddau neu wasanaethau neu ddarparu gwybodaeth, addysg neu gyfarwyddyd, neu os yw'n cynnwys neu'n llunio rhan o arddangosfa at unrhyw ddiben mewn amgueddfa neu oriel gelf. Nid yw'r defnydd o dderbynnydd teledu neu radio yn drwyddedadwy, ac eithrio i ddangos rhaglenni a recordiwyd o flaen llaw.

BLWCH C: Digwyddiad Chwaraeon Dan Do

Diffinnir digwyddiad chwaraeon yn y Ddeddf fel unrhyw gystadleuaeth, arddangosfa neu arddangosiad o unrhyw chwaraeon ble mae gallu corfforol yn brif ffactor, ac unrhyw fath o hamdden gorfforol gaiff ei gynnal at ddibenion cystadleuaeth neu arddangosiad ac sy'n cael ei gynnal yn gyfan gwbl o fewn adeilad, a ble mae'r gwylwyr yn cymryd eu lle tu fewn i'r adeilad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys unrhyw adeiledd â tho a gallai fod yn gerbyd, llong neu adeiledd symudol.

Mae safle sydd â tho sy'n agor a chau yn cael ei ystyried dan y Ddeddf fel digwyddiad awyr agored ac felly nid yw gweithgareddau chwaraeon mewn lleoliadau o'r fath yn drwyddedadwy dan y Ddeddf. Ond noder bod gweithgareddau eraill mewn lleoliadau o'r fath (megis gwerthu alcohol neu gerddoriaeth fyw) yn drwyddedadwy.

BLWCH D: Adloniant Paffio neu Reslo

Yn wahanol i chwaraeon eraill, mae paffio a reslo yn drwyddedadwy p'un ai cynhelir y gweithgaredd dan do neu yn yr awyr agored.

BLWCH E: Cerddoriaeth Fyw

Mae cerddoriaeth yn cynnwys cerddoriaeth leisiol neu offerynnol neu unrhyw gyfuniad o'r ddau. Nid yw'r hen reol '2 yn y bar' yn gymwys o dan y gyfundrefn drwyddedu newydd. Felly bydd angen trwydded ar gerddoriaeth fyw sy'n ateb y diffiniad "adloniant rheoledig" beth bynnag yw nifer y rhai sy'n cymryd rhan. Nid yw perfformiad o gerddoriaeth fyw, os yw'n atodol i weithgaredd arall nad yw'n adloniant rheoledig ynddo'i hun, yn drwyddedadwy.

BLWCH F: Cerddoriaeth wedi ei Recordio

Nid oes rhaid i'ch trwydded gynnwys chwarae cerddoriaeth wedi ei recordio os yw hynny'n atodol i ryw weithgaredd arall nad yw'n adloniant rheoledig ynddo'i hun, gan y byddai wedi ei eithrio. Er enghraifft, mae cerddoriaeth gefndir mewn archfarchnad yn debygol o gael ei hystyried yn achlysurol. Os oes gennych jiwcbocs neu droellwr disgiau yn eich mangre, rhaid i chi ystyried, yn eich achos chi, a yw hyn yn gerddoriaeth achlysurol neu a yw'n weithgaredd trwyddedadwy. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, trafodwch hyn gyda'ch awdurdod trwyddedu.

BLWCH G: Perfformiadau Dawns

Nid yw dawnsio morys nac unrhyw ddawnsio tebyg yn drwyddedadwy, na chwaith berfformiadau o gerddoriaeth fyw heb ei chwyddo fel rhan ganolog o ddawnsio o'r fath.

BLWCH H: Adloniant Tebyg i'r hyn sydd o fewn Cwmpas (e) Cerddoriaeth Fyw, (f) Cerddoriaeth wedi ei Recordio neu (g) Berfformiad Dawns.

BLYCHAU I – K (Darparu Cyfleusterau Adloniant)

Mae hyn yn cyfeirio at gyfleusterau a ddarperir i alluogi pobl i gymryd rhan mewn creu cerddoriaeth, dawnsio a gweithgareddau tebyg. Lle mae pwyllgor neuadd gyhoeddus yn llogi neuadd i'w defnyddio fel lleoliad dawnsio ("cyfleuster adloniant") i wahoddwr a threfnydd priodas breifat, efallai na fyddai gweithgareddau'r pwyllgor yn drwyddedadwy, oni bai bod y pwyllgor hefyd yn rheoli neu yn trefnu darparu adloniant ar gyfer y rhai fydd yn mynychu (gweler Atodlen 1, paragraffau 1(2) a (4) o'r Ddeddf). (Dylid nodi, hyd yn oed os nad yw gweithgareddau'r pwyllgor yn drwyddedadwy, efallai y byddai gweithgareddau a drefnir gan yr unigolyn neu'r unigolion sy'n llogi'r neuadd yn dal i fod angen trwydded (neu ryw ffurf o awdurdodaeth megis Rhybudd Digwyddiad Dros Dro) ond dim ond os yw'r gweithgareddau hynny'n cyfrif fel darparu adloniant rheoledig fel y'i diffinnir yn Atodlen 1, neu ryw weithgaredd trwyddedadwy arall (megis rhedeg bar talu).)

BLWCH I: Darparu Cyfleusterau ar gyfer Creu Cerddoriaeth

BLWCH J: Darparu Cyfleusterau ar gyfer Dawnsio

BLWCH K: Darparu Cyfleusterau ar gyfer Adloniant Tebyg i'r hyn sydd o fewn (i) Darparu Cyfleusterau ar gyfer Creu Cerddoriaeth neu (j) Berfformiad Dawns

BLWCH L (Darparu Lluniaeth yn Hwyr y Nos)

Dylech gyfeirio at adran 1 ac Atodlen 2 o'r Ddeddf neu gysylltu â'ch awdurdod trwyddedu lleol ar gyfer manylion llawn diffiniadau o luniaeth hwyr y nos.

Mae hyn yn delio â darparu bwyd neu ddiod poeth rhwng 11:00yh a 5:00yb, er bod yna nifer o eithriadau. Dylai diodydd poeth yn cynnwys neu gydag alcohol gael eu hawdurdodi o dan gyflenwi alcohol yn hytrach na lluniaeth hwyr y nos.

Nid yw diod boeth o beiriant gwerthu lle mae'r cwsmer yn rhoi arian mewn peiriant a'r ddiod yn cael ei chyflenwi'n uniongyrchol gan y peiriant yn drwyddedadwy, ond fe fyddai felly petai aelod o staff yn cymryd yr arian neu'n gweini'r ddiod.

Nid yw bwyd neu ddiod poeth sydd am ddim yn drwyddedadwy, na'r hyn a gyflenwir gan elusen gofrestredig neu berson a awdurdodir gan elusen gofrestredig.

Mae bwyd neu ddiod poeth a gyflenwir o gerbyd nad yw wedi'i barcio'n barhaol neu dros dro ar y pryd hefyd yn eithriedig.

Mae yna hefyd eithriadau sy'n berthnasol i westeion mewn gwesty, rhai gweithwyr cyflog neu grefftau neu broffesiynau arbennig. Gall cyflenwadau o fwyd neu ddiod poeth ar neu o fangre sydd eisoes wedi ei thrwyddedu dan rai Deddfau eraill hefyd gael eu heithrio – er enghraifft y rhai a ddefnyddir fel safleoedd gwerthu "cwrw di-alcohol" yn Llundain. Os oes gennych unrhyw amheuaeth dylech gysylltu â'ch awdurdod trwyddedu.

BLWCH M: (Gwerthu Alcohol trwy Fanwerthu)

Os ydych am i bobl allu yfed alcohol ar y fangre, ticiwch 'ar'. Os ydych am i bobl allu prynu alcohol i'w yfed oddi ar y fangre, ticiwch 'oddi ar'. Os ydych am i bobl allu gwneud y ddau beth, ticiwch 'y ddau'.

Goruchwyliwr Mangre Dynodedig

Os ydych yn bwriadu gwerthu alcohol, dylech roi manylion yr unigolyn rydych am ei ddewis i fod yn oruchwyliwr mangre dynodedig o dan y drwydded newydd. Bydd angen i'r goruchwyliwr mangre dynodedig fod â thrwydded bersonol ddilys. Mewn nifer o achosion bydd hyn yn golygu deiliad y drwydded mangre, ond gallwch ddewis enwi rhywun arall. Caniateir dim ond un goruchwyliwr mangre dynodedig ar gyfer pob mangre (ond cynifer ag y mynnwch o ddeiliaid trwyddedau personol) ac fel arfer, er nid o anghenraid, hwn fydd yr unigolyn sydd â chyfrifoldeb am y fangre o ddydd i ddydd. Bydd angen i chi hefyd gyflwyno 'ffurflen gydsynio goruchwyliwr mangre dynodedig' wedi'i llofnodi gan yr unigolyn y dymunwch ei gael fel goruchwyliwr mangre dynodedig (dylech wneud hyn hyd yn oed os mai hwn yw'r un unigolyn â'r un sy'n gwneud cais am y drwydded mangre) i gadarnhau ei fod yn fodlon ymgymryd â'r gwaith hwn. Os ydych yn gwneud cais ar-lein, gall y goruchwyliwr mangre dynodedig ddarparu llofnod electronig os oes ganddo un, neu os nad oes, gadewch y rhan hon o'r ffurflen heb ei llenwi. Mae'r ffurflen yn rhagnodedig, ac mae ar gael ar gais oddi wrth eich awdurdod trwyddedu neu gallwch ei hargraffu neu ei lawrlwytho o wefan DCMS. Os ydych yn gwneud cais ar-lein, gofynnir i chi gwblhau'r ffurflen ar-lein. Dylai'r ffurflen gael ei chynnwys gyda'ch cais (gweler rhestr wirio).

Os ydych yn gwneud cais am drwydded ar gyfer 'mangre gymunedol' megis neuadd bentref neu neuadd gymunedol, gallwch wneud cais yr un pryd er mwyn cael gwared â'r amod gorfodol o gael goruchwyliwr mangre dynodedig a'i chyfnewid am amod arall ar y drwydded sy'n gwneud pwyllgor rheoli'n gyfrifol am bob gwerthiant alcohol. Mae manylion pellach ar gael ar y dudalen we hon sef: <http://www.culture.gov.uk/images/publications/DPSadviceforapplicants09.pdf>

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch oruchwylwyr mangre dynodedig yn y canllaw ar Drwyddedau Mangre:

www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/licensing_act_2003/premises_licences

Am fwy o wybodaeth am Drwyddedau Personol:
www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/licensing_act_2003/personal_licences

BLWCH N

Mae hwn yn gofyn i chi roi gwybodaeth am unrhyw beth sydd i gael ei gynnal yn y fangre neu sy'n ategol i ddefnydd o'r fangre a allai achosi pryder parthed plant, er enghraifft (un enghraifft yn unig) noethni neu noethni rhannol, ffilmiau ar gyfer grwpiau oedran cyfyngedig neu gamblo. Nid oes rhaid i chi roi manylion yma am beiriannau Adloniant â Gwobrau. Nid oes rhaid i chi gwblhau'r adran hon os nad yw'n berthnasol i'ch mangre chi, ond yn hytrach na'i gadael yn wag, byddai'n well ysgrifennu 'dim' neu 'Amherthnasol' er mwyn ei gwneud yn glir eich bod wedi ystyried hyn yn hytrach nag wedi anghofio cwblhau'r blwch.

BLWCH O: Yr Oriau y mae'r Fangre ar Agor i'r Cyhoedd

Er y gallai hyn gynnwys adegau pan nad oes unrhyw weithgareddau trwyddedadwy'n cael eu cynnal, mae'n bwysig bod awdurdodau cyfrifol, partïon cyfrannog a'r awdurdod trwyddedu'n cael gwybod pa mor hir mae eich safle ar agor ar ben yr adegau pan fo gweithgareddau trwyddedadwy'n cael eu cynnal. Er enghraifft, gall fod yn angenrheidiol ac yn gymesur i sicrhau bod gweithgareddau trwyddedadwy yn gorffen mewn da bryd cyn bod y fangre'n cau i'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod pobl yn gadael yn drefnus.

Dylech nodi a fyddai unrhyw 'amrywiaethau tymhorol' i ac 'amseriadau ansafonol' ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy'n effeithio ar yr oriau y mae'r fangre ar agor i'r cyhoedd yn y mannau a ddarperir. Efallai yr hoffech chi hefyd ystyried a fydd yna unrhyw amrywiaethau tymhorol neu amseriadau ansafonol pan fydd y fangre ar agor i'r cyhoedd ar adegau gwahanol ar gyfer gweithgareddau heb fod angen trwydded - er enghraifft, agor yn gynnar i ddarparu brecwast yn ystod gwyliau'r haf.

P – Camau i Hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu

Gofynnir i chi ddisgrifio'r camau y bwriadwch eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu:

- atal trosedd ac anrhefn
- diogelwch y cyhoedd
- atal niwsans cyhoeddus
- amddiffyn plant rhag niwed.

Peidiwch ag anghofio y dylech eisoes fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol mewn meysydd eraill. Dylai cydymffurfio â'r gofynion hyn fod yn fan cychwyn i chi. Os teimlwch nad oes angen i chi wneud dim mwy, yna efallai yr hoffech ysgrifennu 'Amherthnasol' neu rywbeth tebyg i 'dim byd y tu hwnt i ofynion presennol Iechyd a Diogelwch/Diogelwch Tân ac ati'. Mae hyn yn dangos eich bod wedi ystyried yr amcanion ac wedi dod i'r penderfyniad nad oes dim byd arall y dylech ei wneud, ac nid eich bod wedi anghofio ysgrifennu rhywbeth yn yr adran hon. Wrth gwrs, os bydd awdurdod sy'n gyfrifol am un o'r amcanion trwyddedu yn ystyried bod angen i chi wneud mwy, gallant gyflwyno sylwadau. Os oes gennych bryderon, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi siarad â'r awdurdod cyfrifol perthnasol cyn cwblhau'r ffurflen. Ceir rhagor o wybodaeth am awdurdodau cyfrifol ar wefan DCMS www.culture.gov.uk neu gan swyddog trwyddedu neu wefan eich awdurdod lleol.

Os ydych yn bwriadu cymryd mesurau ychwanegol, dylech ystyried yn ofalus beth i'w gynnwys. Mae unrhyw beth a nodwch yma yn debygol o ddod yn amod o'ch trwydded. Byddai methiant i fodloni'r amodau hyn yn drosedd dan y Ddeddf. Felly dylech ystyried yn ofalus cyn ychwanegu amodau er mwyn sicrhau eu bod yn gyraeddadwy, yn realistig, yn angenrheidiol, yn addas, yn gyfrannol ac o fewn eich rheolaeth. Seiliwch eich ymateb ar ystyriaeth gywir, gan ddefnyddio synnwyr cyffredin, o'r risgiau a'r hyn y gallwch ei wneud yn realistig i'w lliniaru.

Mae enghreifftiau o amodau posibl parthed y pedwar amcan trwyddedu wedi eu cynnwys yn y Canllaw a gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol i awdurdodau trwyddedu ac mae ar gael ar wefan DCMS [www.culture.gov.uk]. Fe'i rhoddir fel casgliad o amodau posibl, a allai fod yn ddefnyddiol i bobl eu hystyried. Nid ydynt yn fodelau o amodau ac ni ddylid eu hystyried i fod yn amodau safonol sy'n berthnasol i bawb mewn unrhyw fodd.

Yn y 'Blwch Cyffredinol', rhestrwch y camau y byddwch yn eu cymryd i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu gyda'i gilydd, er enghraifft, cyflogi staff ychwanegol.

Rhestr Wirio a Datganiad

Trwy dicio'r rhestr hon, rydych yn gwneud datganiad eich bod wedi cyflawni'r gweithredoedd a rhestrir. Os byddwch yn ticio'r blychau a heb gyflawni'r gweithredoedd hyn, efallai y byddwch yn gwneud datganiad ffug parthed y cais, sy'n drosedd, a allai'ch gwneud yn atebol i ddirwy o hyd at £5,000.

Os ydych yn gwneud cais **ar-lein, ni** ddylech dicio'r datganiad yn datgan eich bod wedi anfon copïau o'r cais i awdurdodau cyfrifol gan y bydd hyn yn cael ei wneud gan yr awdurdod trwyddedu.

Dylech wirio eich bod wedi cynnwys yr holl ddogfennau angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys cynllun o'r fangre a, lle bo angen hynny, ffurflen ganiatâd y Goruchwyliwr Mangre Dynodedig.

Cynlluniau

Dylid cynnwys y cynllun o'r fangre gyda'r cais a'i gopïo i'r awdurdodau cyfrifol fel rhan o'r cais (oni bai eich bod yn cyflwyno'ch cais ar-lein, fel yr eglurwyd uchod). Rhaid i gynllun y fangre fodloni'r gofynion a sefydlwyd yn y Ddeddf ac yn Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb) 2005, Offeryn Statudol 2005/42 i ddangos y canlynol:

(a) maint a ffin yr adeilad, os yn berthnasol, ac unrhyw waliau allanol a mewnol i'r adeilad ac, os yn wahanol, perimedr y fangre;

(b) lleoliad mynedfeydd ac allanfeydd y fangre;

(c) os yn wahanol i baragraff (b), lleoliad llwybrau dianc o'r fangre;

(d) mewn achos lle mae'r fangre'n cael ei defnyddio ar gyfer mwy nag un gweithgaredd trwyddedadwy presennol, yr ardal yn y fangre a ddefnyddir ar gyfer pob gweithgaredd;

(e) adeileddau sefydlog (gan gynnwys dodrefn) neu wrthrychau tebyg sydd wedi eu gosod dros dro mewn lleoliad sefydlog (ond nid dodrefn) a allai effeithio ar allu unigolion ar y fangre i ddefnyddio allanfeydd neu lwybrau dianc heb rwystr;

(f) mewn achos lle mae'r fangre yn cynnwys llwyfan neu ardal wedi'i godi, lleoliad ac uchder pob llwyfan neu ardal mewn perthynas â'r llawr;

(g) mewn achos lle mae'r fangre'n cynnwys unrhyw stepiau, grisiau, esgynyddion neu lifftiau; lleoliad y stepiau, grisiau, esgynyddion neu'r lifftiau hynny;

(h) mewn achos lle mae'r fangre'n cynnwys unrhyw ystafell neu ystafelloedd sy'n cynnwys cyfleusterau cyhoeddus, lleoliad yr ystafell neu'r ystafelloedd hynny;

(i) lleoliad a math o offer tân ac unrhyw offer diogelwch arall, gan gynnwys, os yn briodol, cyfarpar diogelwch morol; a

(j) lleoliad cegin, os o gwbl, ar y fangre.

Nid oes rhaid gwneud y cynllun ar raddfa benodol, ond rhaid iddo fod yn hygyrch a dealladwy, a rhaid iddo ddarparu digon o fanylion i'r awdurdod trwyddedu allu pennu'r cais, gan gynnwys maint cymharol unrhyw nodweddion sy'n berthnasol i'r cais. Gall y cynllun gynnwys allwedd o symbolau i ddangos yr uchod ar y cynllun, ond nid oes rhaid gwneud hynny.

A oes rhaid i mi gael rhywun proffesiynol i baratoi'r cynlluniau?
Nid oes unrhyw ofyniad i chi gael rhywun proffesiynol i lunio'r cynlluniau. Yr hyn sy'n bwysig yw eu bod yn gywir ac yn bodloni'r gofynion y cyfeirir atynt uchod.
A oes angen i mi ddangos man yfed, megis gardd gwrw, ar y cynllun?
Nid oes unrhyw ofyniad i ddangos unrhyw fan ar y cynllun nad sy'n rhan o'r fangre yr ydych yn trwyddedu. Fodd bynnag, dylech ddisgrifio unrhyw fan rydych yn bwriadu ei darparu i bobl yfed alcohol yr ydych yn gwerthu neu'n cyflenwi dan y disgrifiad cyffredinol o'r fangre y mae gofyn i chi rhoi ar ddechrau Rhan 3 y ffurflen gais.

Awdurdodau Cyfrifol

Os ydych yn gwneud cais ysgrifenedig, mae'n rhaid i chi roi copi o'r cais, gan gynnwys y ddogfennaeth ategol, i'r "awdurdodau cyfrifol" ar yr un diwrnod ag y rhoddir y cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol. Mae awdurdodau cyfrifol yn gyrff cyhoeddus sydd â hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu parthed cais. Rhaid i unrhyw sylwadau fod ynglŷn ag effaith debygol dyfarnu'r cais ar hyrwyddiad yr amcanion trwyddedu. Mae'r awdurdodau cyfrifol yn cynnwys y canlynol, ar gyfer yr ardal ble mae'r fangre wedi ei lleoli:

- Prif swyddog yr heddlu
- Yr awdurdod tân ac achub
- Yr awdurdod iechyd a diogelwch
- Yr awdurdod cynllunio lleol
- Yr awdurdod iechyd yr amgylchedd
- Y corff a gydnabyddir i fod yn gyfrifol am amddiffyn plant rhag niwed
- Arolygwyr Pwysau a Mesurau (swyddogion safonau masnach)

Parthed llong, mae'r rhestr hon hefyd yn cynnwys yr awdurdod mordwyo perthnasol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae rhagor o wybodaeth am awdurdodau cyfrifol ar gael o wefan DCMS:

www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/premises_licences

I gael manylion yr awdurdodau cyfrifol yn eich ardal, cysylltwch â'ch tîm trwyddedu lleol. Efallai y bydd manylion hefyd ar gael ar wefan eich awdurdod lleol.

Os ydych yn gwneud cais **ar-lein**, bydd yr awdurdod trwyddedu'n copïo'ch cais i awdurdodau cyfrifol ar neu cyn y diwrnod gwaith cyntaf wedi i chi gyflwyno cais dilys a thalu'r ffi.

Hysbysebu'ch Cais

Rhaid hysbysu ceisiadau fel y sefydlwyd yn y Ddeddf ac yn Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb) 2005. Mae hyn yn cynnwys arddangos hysbyseb yn neu y tu allan i'r fangre a hysbysebu mewn papur newydd a ddosberthir yn lleol. Am fwy o gyngor, siaradwch â'ch swyddog trwyddedu yn eich awdurdod trwyddedu lleol neu gallwch weld y canllaw ar wefan DCMS: [www.culture.gov.uk]

PEIDIWCH AG ANGHOFIO AMGÁU'R FFI GYWIR

Ceir manylion am y ffioedd yn y nodyn canllaw perthnasol:
www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/fee_levels

Rhan 4 – Llofnodion

Os ydych yn gwneud cais yn ysgrifenedig, rhaid i'r ffurflen gais gael ei llofnodi. Gall asiant yr ymgeisydd (er enghraifft, cyfreithiwr) lofnodi ffurflen ar ei ran cyhyd ag y bo ganddo awdurdod penodol i wneud hynny. Lle mae yna mwy nag un ymgeisydd, rhaid i'r ddau ymgeisydd, neu eu hasiantau priodol, lofnodi'r ffurflen gais.

Os ydych yn gwneud cais ar-lein, gallwch ddefnyddio llofnod electronig os oes gennych un, neu os nad oes, rhowch eich enw lle'r dynodir hynny gan adael y blwch llofnod yn wag.

Cychwyn Gweithgareddau Trwyddedadwy

Os ydych yn gwneud cais ar-lein, gallwch ddechrau gweithgareddau trwyddedadwy cyn gynted ag y byddwch yn derbyn cadarnhad gan yr Awdurdod Trwyddedu eu bod wedi cymeradwyo'ch cais. Fodd bynnag, os nad ydych wedi derbyn copi o'ch trwydded, dylech sicrhau eich bod yn gwybod pa amodau a osodwyd neu fe allech ddarganfod eich bod yn torri'ch rhwymedigaethau cyfreithiol fel arall.

department for
culture, media
and sport

2-4 Cockspur Street
Llundain SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk